

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.8.1 Siopau Elusen



Beth yw 'siop elusen'?

Mae siopau elusen yn allfeydd gwerthu sy'n codi arian i'w rhiant elusennau, drwy werthu nwyddau ail-law sydd wedi'u rhoi yn bennaf. Gallant werthu eitemau hefyd sydd, o'u gwerthu, yn cynrychioli 'prif ddiben masnachu' neu 'ddiben masnachu eilaidd'

Beth yw 'prif ddiben masnachu'

'Prif ddiben masnachu' yw masnachu sy'n cyfrannu'n uniongyrchol i un neu fwy o amcanion yr elusen, sydd wedi'u nodi yn ei dogfen llywodraethu. Gallai enghreifftiau sy'n gysylltiedig â siop elusen gynnwys gwerthu nwyddau sydd wedi'u gweithgynhyrchu gan bobl anabl sy'n fuddiolwyr elusen i bobl anabl, neu werthu tocynnau ar gyfer cynhyrchiad theatr gan elusen theatr.

Beth yw 'Diben masnachu eilaidd'

'Diben masnachu eilaidd' yw masnachu gyda'r bwriad o godi arian i'r elusen, sy'n wahanol i fasnachu sydd ynddo'i hun yn datblygu amcanion yr elusen. Enghraifft o fasnachu o'r fath fyddai gwerthu pennau ysgrifennu, mygiau a llieiniau sych llestri hyrwyddol mewn siop elusen, sy'n hyrwyddo'r elusen sy'n rhedeg y siop gyda'r bwriad o godi arian ar gyfer yr elusen honno.

A all siop elusen werthu nwyddau sydd wedi'u rhoi ochr yn ochr â nwyddau prif ddiben masnachu neu ddiben masnachu eilaidd?

Gallant. Nid yw gwerthu nwyddau sydd wedi'u rhoi i elusen yn fasnachu. Ond pan fydd nwyddau sydd wedi'u rhoi yn cael eu gwerthu ochr yn ochr â nwyddau eraill, sydd gyfystyr â masnachu, mae'n rhaid gwahanu'r incwm o werthu nwyddau a roddwyd o'r elw *masnachu*. Y rheswm am hyn yw bod yna oblygiadau gwahanol ar gyfer treth gorfforaethol a TAW ar elw sy'n deillio o fasnachu. Mae gwybodaeth bellach ar gael am hyn gan y Comisiwn Elusennau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (gweler 'Gwybodaeth Bellach').

A yw'n hawdd sefydlu siop elusen?

Yr ateb syml yw nac ydy. Mae siop elusen yn ffordd dda o godi ymwybyddiaeth ac arian ar gyfer elusen, ond nid dyma yw'r dewis hawdd. Wrth sefydlu siop elusen mae'n rhaid i chi ystyried yr un materion â rhywun sy'n rhedeg busnes bach – megis staff, diogelwch, iechyd a diogelwch a chyfreithiau masnachu – yn ogystal â phroblemau sy'n benodol i'r sector, megis lle i gael eich stoc (rhoddion) a recriwtio a rheoli eich gweithlu o wirfoddolwyr.

A all unrhyw un sefydlu siop elusen?

Dim ond elusennau sy'n gallu sefydlu siopau elusen (h.y. sefydliadau sydd wedi'u cofrestru fel elusen gyda'r Comisiwn Elusennau); ni all unigolyn sefydlu siop elusen. Yna bydd yr arian sy'n cael ei godi gan siop elusen yn cael ei drosglwyddo i'r rhiant elusen er mwyn datblygu eu gwaith elusennol.

Beth y dylech ei ystyried cyn sefydlu siop elusen?

I ddechrau mae'n rhaid i chi ddilyn y camau hyn:

1. Os nad ydych wedi gwneud hyn yn barod, mae angen i chi gofrestru fel elusen gyda'r Comisiwn Elusennau.
2. Astudio'r goblygiadau statudol sy'n gysylltiedig â bod yn fanwerthwr, elusen, cyflogwr a deiliad eiddo.
3. Astudio agweddau treth rhedeg siop elusen. Mae siopau elusen yn cael eu heithrio rhag talu treth gorfforaethol, ni chodir TAW am werthu nwyddau sydd wedi'u rhoi, a rhyddhad ardrethi annomestig gorfodol o 80%. Oherwydd y consesiynau sylweddol hyn, mae'r Comisiwn Elusennau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn arfer rheolau sy'n sicrhau bod elusennau'n cyflawni eu cyfrifoldebau a'u goblygiadau.
4. Cysylltwch â'ch cyngor lleol i drefnu rhyddhad ardrethi neu eithriad ardrethi.
5. Dylech greu cyllideb ar gyfer y siop, gyda'r incwm tebygol (o werthiannau) a gwariant (o rent, cyflogau, atgyweiriadau, biliau, yswiriant ac ati). Cofiwch y bydd 60-80% o incwm y siop yn mynd tuag at gostau rhedeg, megis rhent a chyflogau.
6. Codwch eich cyfalaf cychwynnol. Bydd angen o leiaf £5,000 arnoch i dalu'r blaendal rhent, yn ogystal ag arian ar gyfer addasu'r siop, gwaith atgyweirio hanfodol, a recriwtio staff (nodwch mai costau arferol addasu siop yw £10,000-£20,000).

Sut allwch chi sefydlu siop elusen?

Mae angen i chi wneud y canlynol:

1. Dewis ardal i sefydlu eich siop. Bydd angen lleoliad da arnoch gyda digon o ymwelwyr, wrth ymyl maes parcio yn ddelfrydol.
2. Dod o hyd i eiddo. Bydd angen i chi gael ystafell gefn o faint da ar gyfer storio a pharatoi stoc, yn ogystal ag ardal gyhoeddus ddeniadol. Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaethau lechyd a Diogelwch a gofynion hygyrchedd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, bydd angen i'r siop fod yn ddiogel, wedi'i goleuo'n dda ac yn hygyrch i bobl ag anableddau. Edrychwch ar wefan y [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#) gael manylion pellach.
3. Addasu'r siop. Bydd angen silffoedd, rheiliau a chownter gyda thil yn yr ardal gyhoeddus, a bydd angen cyfleusterau storio a threfnu yn yr ystafell gefn. Mae'n syniad da gosod larwm lladron, a mathau eraill o offer diogelwch megis teledu cylch cyfyng.
4. Cyflogi rheolwr ar gyfer y siop, sydd â phrofiad o fanwerthu. Hwyl fydd yn gyfrifol am holl weithgareddau'r siop, yn cynnwys stoc, gwirfoddolwyr a thrin yr arian, yn ogystal ag ysgrifennu adroddiadau ar werthiannau ac ati. [D.S. Mae swydd rheolwr y siop fel arfer yn swydd â thâl.]
5. Dod o hyd i wirfoddolwyr. Bydd angen o leiaf dau berson arnoch i weithio yn y siop drwy'r amser, oherwydd diogelwch ac ar gyfer prosesu stoc. Mae arolygon Cyllid Elusennau wedi canfod mai nifer gyfartalog y gwirfoddolwyr i bob siop yw 19, sy'n gweithio tua chwe awr yr wythnos i gwmpasu 12 shifft bore a phrynhawn dros chwe diwrnod. [D.S. Bydd gwirfoddolwyr ond yn derbyn tâl am eu treuliau.]
6. Hyfforddych eich gwirfoddolwyr a'ch cyflogeion, er mwyn iddynt wybod beth yw nodau eich elusen, cyfreithiau manwerthu, diogelwch cynnyrch, paratoi stoc ac adnabod stoc werthfawr, yn ogystal â materion megis lechyd a Diogelwch a Diogelwch.

Ar ôl sefydlu'r siop, beth yw'r ffordd orau i'w rhedeg?

1. Dylid annog rhoddion, naill ai drwy sgwrsio â'r cyhoedd neu wneud casgliadau o ddrws i ddrws drwy ddefnyddio sachau (ceir mwy o wybodaeth isod ar eich goblygiadau cyfreithiol mewn casgliadau o'r fath).
2. Trefnu, glanhau a phrisio eich stoc. Gall ailbroseyydd, neu 'ragman' brynu tecstilau na ellir eu gwerthu (h.y. maent yn rhy hen neu maent wedi'u difrodi), a fydd yn eu hailgylchu neu'n eu hallforio. Ceir mwy o wybodaeth ar brosesu tecstilau ar wefan y [Gymdeithas Ailgylchu Tecstilau](#).

3. Gwnewch yn siŵr bod y siop yn lle diogel a saff i fod ynnddi, ac i weithio ynnddo. Mae'n rhaid cwblhau gwaith papur, megis Aseidiadau Risg, er mwyn profi hyn. Dylech arddangos y posteri a'r hysbysiadau cywir, yn cynnwys:
- tystysgrif yswiriant atebolrwydd y cyflogwr
 - poster cyfraith lechyd a Diogelwch
 - datganiad polisi lechyd a Diogelwch y cyflogwr
 - cyfarwyddiadau argyfwng tân, a'r
 - hysbysiad cymorth cyntaf.

Mae mwy o wybodaeth ar gael am hyn ar wefan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau a cheir gwybodaeth ar wefan yr [Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch](#) ar sut i gynnal aseiad risg ar gyfer siop elusen.

4. Gwnewch yn siŵr bod y siop yn briodol ar gyfer cwsmeriaid a gwirfoddolwyr anabl, er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys pethau ymarferol, megis cael ramp dros risiau yn ogystal â hyfforddi staff ar y ffordd orau i helpu. Yn ogystal â sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gofynion sydd wedi'u nodi mewn deddfwriaethau, mae hefyd yn hollbwysig, er mwyn sicrhau gofal cwsmeriaid da, i chi ystyried anghenion *pob* cwsmer sy'n golygu bod angen i chi ddarparu ar gyfer y cwsmeriaid hynny ag anabledau.

Beth yw'r ystyriaethau a'r goblygiadau cyfreithiol?

Bydd angen i staff a gwirfoddol fod yn ymwybodol o'u goblygiadau cyfreithiol, y tu hwnt i'r rhai sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch a rheoliadau'r Ddeddf Cydraddoldeb uchod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **deddf defnyddwyr:** mae'n rhaid i siopau werthu nwyddau sy'n ddiogel, o ansawdd boddhaol gyda labeli rhybudd priodol pan fydd angen. I gael gwybodaeth bellach ewch i'r wefan [Safonau Masnachu](#).
- **profion trydanol:** mae'n rhaid i unrhyw offer trydanol sy'n cael ei werthu gael ei archwilio a'i brofi i ddechrau, gan drydanwr cymwys yn ddelfrydol.
- **rheoliadau dodrefn:** mae'n rhaid i ddodrefn â gorchuddion arnynt sy'n newydd neu'n ail-law fod wedi'u gwneud o ddefnydd priodol a'u bod yn arddangos rhai labeli rhybudd.
- **trwyddedau cerddoriaeth:** mae'n rhaid i siop elusen sy'n chwarae cerddoriaeth, naill ai yn yr ystafell gefn neu yn ardal gyhoeddus y siop, gael trwydded i wneud hynny gan [PRS For Music](#)
- **dosbarthiadau oedran:** ni all plant sydd o dan oedran dosbarthu'r [British Board of Film Classification \(BBFC\)](#) brynu ffilmiau a gemau fideo/cyfrifiadurol â dosbarthiadau oedran.

- **rheoliadau ysmegu:** mae'n rhaid i siopau elusen a'u cerbydau busnes gydymffurfio â'r cyfreithiau dim ysmegu ac arddangos arwyddion priodol; mae'r rheolau hyn yn berthnasol ar draws y DU a Gogledd Iwerddon.
- **trwyddedau teledu:** mae'n rhaid i siopau sy'n gwerthu setiau teledu ac offer cysylltiedig (megis peiriannau recordio DVD) gofrestru fel gwerthwr gyda'r corff [Trwyddedau Teledu](#) a rhoi manylion prynwyr iddynt.
- **casgliadau o ddrws i ddrws:** mae casgliadau elusennol yn cael eu rheoleiddio felly mae angen trwydded neu orchymyn eithrio ar eu cyfer, ac mae'r gyfraith sy'n gysylltiedig â chasgliadau elusennol yn seiliedig ar Ddeddf Casgliadau Drws i Ddrws 1939 a dau Reoliad cysylltiedig. Mae'r gyfraith yn cynnwys casglu nwyddau (e.e. dillad, dillad gwely, CD, gemwaith) yn ogystal ag arian. Gallwch gyfeirio at [God Ymarfer y Sefydliad Codi Arian](#) i gael manylion pellach ar gasgliadau o ddrws i ddrws.

Allwn ni ddefnyddio Cymorth Rhodd wrth werthu eitemau sydd wedi'u rhoi i'n siopau elusen?

Gallwch. Mae Cymorth Rhodd yn ffordd i elusennau gynyddu gwerth rhoddion ariannol gan drethdalwyr y DU drwy hawlio'r dreth sylfaenol a dalwyd gan y rhoddwr. Gall gynyddu gwerth rhoddion o chwarter a hynny am ddim cost ychwanegol i'r rhoddwr, ac mae'n werth tua £1 biliwn y flwyddyn i elusennau a'u rhoddwyr.

Mae defnyddio Cymorth Rhodd yn cynnwys tri cham:

- troi'r eitem yn rhodd arian parod wrth i'r elusen weithredu fel asiant i'r rhoddwr;
- gwerthu'r eitem; a
- cynnig yr arian yn ôl i'r rhoddwr.

Os bydd y rhoddwr yn cynnig rhoi'r arian i'r elusen, yna gellir defnyddio Cymorth Rhodd. Mae cofnod clir sy'n cysylltu rhoddwyr i eitemau a'r arian maent wedi'i godi yn hollbwysig, yn ogystal â chaniatâd i gael Cymorth Rhodd ar yr arian a godwyd o'r eitem honno. Mae gwybodaeth bellach ar gael drwy gysylltu â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (gweler 'Gwybodaeth Bellach' isod).

Gwybodaeth bellach

Yn ogystal â'r cysylltiadau i wefannau a geir yn y testun uchod, gallai'r cyhoeddiadau canlynol fod yn ddefnyddiol:

Canllaw'r Comisiwn Elusennau

Trustees, Trading and Tax: How Charities May Lawfully Trade (CC35)

www.charity-commission.gov.uk

Cyllid a Thollau EM

www.hmrc.gov.uk/charities

Cyhoeddiad y Gymdeithas Charity Retail

The Code of Charity Retailing 2011-2012

www.charityretail.org.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 11/04/2011



Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk